

# Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Cyflwyniad ysgrifenedig gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

(Sesiwn tystiolaeth lafar: Dydd Iau 18 Tachwedd 2021 - cyflwynwyd: Dydd Llun 8 Tachwedd 2021)



## **Cyflwyniad**

### **1. Pwrpas a chyfyngiadau**

- 1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi briff i aelodau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) y Senedd cyn y sesiwn ar 18 Tachwedd 2021, lle bydd CCAUC yn rhoi tystiolaeth ynghylch y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a gyflwynir ar 1 Tachwedd. 2021.
- 1.2 Tra'r oedd Llywodraeth Cymru'n llunio'r Bil, cawsom statws rhanddeiliad allanol. Nid ydym felly wedi ymwneud yn uniongyrchol â datblygu'r ddeddfwriaeth ddrafft, ac nid ydym wedi gweld y Bil ar ffurf ddrafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar 1 Tachwedd 2021, ar wahân i'r fersiwn a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yn 2020. Paratowyd y briff hwn cyn pen wythnos ar ôl gosod y Bil ac, o ganlyniad i hynny, ni ellir ond ei ystyried yn ymateb cychwynnol wedi'i lunio heb ryw lawer o amser i drafod swm sylweddol o ddeunydd. Yr hyn sy'n dilyn, felly, yw ymateb cychwynnol i'r Bil, gydag esboniadau ategol. Ni fu digon o amser ychwaith i gynnwys ein Cyngor yn yr ymateb hwn, felly nid yw ond yn cynrychioli safbwyntiau swyddogion. Rydym ar hyn o bryd yn disgwyl gwneud cyflwyniad pellach mewn ymateb i'r alwad gyffredinol a wnaed ar 6 Tachwedd i'r Pwyllgor PPIA, lle'r ydym yn disgwyl cynnwys safbwyntiau ein Cyngor.
- 1.3 Fel y manylir isod, rydym wedi cefnogi byrdwn cyffredinol y cynigion hyn, mewn egwyddor, ers dechrau eu datblygu tua chwe blynedd yn ôl. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft o'r ddeddfwriaeth yn 2020, mynegwyd siom gennym fod y ddeddfwriaeth, fel yr oedd wedi'i drafftio ar y pryd, yn gyfle wedi'i golli. Fel y nodwyd yn ein hymateb yn 2020, byrdwn adroddiad Hazelkorn, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Y bwriad clir oedd creu sector cydlynus ac integredig, gyda threfniadau gweinyddol a fyddai'n ei gwneud hi'n haws bodloni anghenion cyflogwyr a myfyrwyr, a chael gwared a'r tensiynau'n gysylltiedig â'r rhyngwyneb rhwng y sectorau cyfredol. Yn ein barn ni, nid yw'r Bil fel y mae wedi'i gyflwyno yn cyflawni'r argymhellion hynny, a byddai angen ei ddiwygio er mwyn iddo wneud hynny.
- 1.4 Rydym yn dal i fod wedi ein hargyhoeddi bod angen diwygio'r trefniadau cyfredol i sefydlu un sector trydyddol cydlynus yng Nghymru, a wedi ymrwmo i hynny. Nod ein sylwadau isod yw rhoi barn adeiladol, a byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr i wella'r ddeddfwriaeth hon hyd yr eithaf, er mwyn sicrhau cymaint o fudd ag sy'n bosibl i Gymru yn ei sgil.

## Y Cefndir

### **2 Rôl CCAUC**

- 2.1 Rydym yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd ac a rymuswyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, gyda phwerau ychwanegol yn sgil Deddf Addysg Bellach (Cymru) 2015.
- 2.2 Mae'n ofynnol inni ystyried, neu gadw at, ofynion deddfau eraill, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Safonau'r Gymraeg.
- 2.3 Rydym yn rheoleiddio, yn cyllido ac yn dylanwadu ar ddarparwyr addysg uwch, a hefyd yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a nodir yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg i'n Cyngor.
- 2.4 Mae ein Gweledigaeth wedi'i nodi yn ein Strategaeth Gorfforaethol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru:
- “Ein huchelgais ar gyfer y tymor hir yw sicrhau system addysg uwch, ymchwil, arloesi a hyfforddi sydd o safon fyd-eang, sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac sy'n gynaliadwy. Dylai'r gyfundrefn honno hyrwyddo buddiannau myfyrwyr a sicrhau bod Cymru'n ffynnu yn gymdeithasol, yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol.”
- 2.5 Rydym yn sefydliad sy'n cynnwys 58 o aelodau staff. Mae gennym Gyngor ac ynddo 12 o aelodau (un swydd wag ar hyn o bryd) sydd yn cael ei gynghori gan 8 o bwyllgorau. Rydym yn cael ein harchwilio gan Archwilio Cymru ac yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gellir herio ein penderfyniadau yn gyfreithiol drwy adolygiad barnwrol. Er bod gan aelodau ein Cyngor ystod o brofiad a sgiliau, gan gynnwys rheoli ac arwain prifysgolion, mae'n bwysig nodi nad yw staff cyfredol, nac aelodau cyrff llywodraethu darparwyr Cymru yn eu plith. Mae hyn wedi lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, boed hynny'n wrthdaro gwirioneddol neu dybiedig, agwedd y \*\*\* bydd angen i Fwrdd y Comisiwn hefyd ei rheoli.
- 2.6 Er ein bod yn cael ein cyllido ac yn derbyn cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, rydym yn annibynnol ar y llywodraeth fel corff nodedig. Mae hyn yn galluogi ein sefydliad o staff arbenigol i weithio mewn partneriaeth â'r darparwyr addysg uwch (AU) hynny (gan gynnwys nifer o golegau addysg bellach (AB)) a gyllidir ac a reoleiddir gennym i sicrhau canlyniadau hirdymor er budd Cymru. Mae'n ein galluogi i weithio ymhell o'r amgylchedd gwleidyddol, y tu hwnt i gyfnodau byr rhaglenni llywodraethu, gan barhau i fod yn atebol i'r cyhoedd drwy Weinidogion Cymru a'r Senedd.
- 2.7 Rydym yn gweithredu drwy herio a chefnogi'r darparwyr AU a gyllidir ac a reoleiddir gennym. Nid ydym yn rheoli'r farchnad fel sefydliadau eraill yn y DU â chylchoedd gwaith tebyg. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o gyrff y sector AU ac yn gweithio'n agos gyda chyllidwyr a rheoleiddwyr AU eraill y DU i

gynnal y gweithgareddau AU a gynhelir ar raddfa'r DU, a sicrhau bod datblygiadau'n cynnwys ystyriaeth o ofynion Cymru.

- 2.8 Darparodd CCAUC dystiolaeth i'r [Adolygiad o'r trosolwg o addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan gyfeirio'n arbennig at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru \(CCAUC\) yn y dyfodol](#) a gynhaliwyd gan yr Athro Ellen Hazelkorn yn 2015. Yn rhan o'r cyflwyniad hwnnw, dyma oedd safbwynt CCAUC:

"Rydym o'r farn fod lle i wella'r trefniadau traws-sector rhwng y systemau AB ac AU. Mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys elfen o gystadleuaeth rhwng y ddau sector hyn mewn maes sydd, y gellid dadlau, o'r pwys mwyaf o ran dyrchafu ac uwchsgilio. Nid yw'r trefniadau hynny'n ddigon da....rydym ni o'r farn y gallai cael un corff i oruchwylio'r naill sector a'r llall sicrhau budd sylweddol o ran hyn"

Am y chwe blynedd diwethaf, felly, rydym wedi gweld y datblygiadau arfaethedig fel cyfle i wella cyfraniad y system addysg ôl-orfodol i Gymru. Dyma ein safbwynt clir o hyd.

- 2.9 Mae gennym record dda ac enw da am gyflawni ein cylch gwaith a gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad. Ni fyddwn ond yn cymryd camau rheoleiddio fel dewis olaf - y dull a ffafir gennym yw ymgysylltu'n ddigon mynych â darparwyr er mwyn gallu atal anawsterau rhag codi, lle mae angen ymyrraeth reoleiddiol. Nid yw CCAUC yn sefydliad sy'n methu. Roedd hyn yn amlwg o'r ymatebion i'r [arolwg rhanddeiliaid a phartneriaid](#) a gynhaliwyd gan CCAUC yn 2019: "Dywedodd dros bedair rhan o bump (84%) o'n hymatebwyr fod ganddynt farn gadarnhaol ynghylch CCAUC, neu argraff ffafriol ohono. Dim ond un unigolyn (1%) a fynegodd farn anffafriol."
- 2.10 Yn ein hymateb i'r bil drafft a gyhoeddwyd yn 2020, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y memorandwm esboniadol cysylltiedig yn canolbwyntio'n bennaf ar y diffygion canfyddedig yn y trefniadau ar gyfer y sector addysg uwch, gan gynnig ymdriniaeth arwynebol yn unig â sectorau eraill. Er enghraifft, roedd asesiad manwl wedi'i gynnal o'r heriau cyd-destunol o flaen addysg uwch, yn ogystal â heriau ariannol pob prifysgol, ond nid oedd asesiad tebyg wedi'i gynnal o'r heriau o flaen addysg bellach. Mae'n destun siom inni weld yr un gogwydd o ran ymagwedd yn parhau yn y memorandwm esboniadol diwygiedig (ond a oedd i raddau helaeth heb ei newid ac wedi dyddio) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r gogwydd anesboniadwy yn yr achos sylfaenol o blaid newid yn tanseilio egwyddor creiddiol y ddeddfwriaeth a ddylai, yn ein barn ni, ganolbwyntio ar y manteision posibl yn sgil sector trydyddol cyfun mwy cydlynus yng Nghymru, yn hytrach na'r angen i gywiro diffygion tybiedig yn un rhan o'r sector hwnnw. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at Fil nad yw'n llwyddo, ar ei ffurf gyfredol, i sicrhau'r manteision sylweddol a allai fod yn bosibl.
- 2.11 O safbwynt gweithredol, rydym yn pryderu bod perygl inni gollu'r staff a'u harbenigedd gan fod cymaint o ansicrwydd ynghylch trefniadau i drosglwyddo gweithgareddau a staff CCAUC i'r Comisiwn. Bydd hynny'n risg i weithgareddau parhaus CCAUC nes iddo gael ei ddiddymu, ac yn risg hefyd i'r Comisiwn newydd. Er bod chwe blynedd bellach wedi mynd heibio ers comisiynu adolygiad Hazelkorn, mae'r amserlen fer sy'n weddill er mwyn gweithredu'r trefniadau

newydd o fis Ebrill 2023 hefyd yn achosi risg sylweddol i'r gallu i drosglwyddo'n effeithiol.

### Bil Ymchwil Addysg Drydyddol (Cymru)

#### **3. Materion a ddatryswyd yn y Bil fel y'i gosodwyd ar 1 Tachwedd 2021**

- 3.1 Cyflwynwyd ymateb cynhwysfawr gennym <sup>1</sup> i'r ymgynghoriad ar y bil drafft a gyhoeddwyd yn 2020, ynghyd â llythyr cyflwyno<sup>2</sup>. Yn ein hadolygiad cychwynnol o'r Bil a osodwyd ar 1 Tachwedd, mae'r rhan fwyaf o'r pryderon a fynegwyd yn yr ymateb hwnnw'n parhau heb eu datrys. Fodd bynnag, rydym yn falch o weld ei bod hi'n ymddangos fel pe bai rhai o'r materion a nodwyd gennym yn ein hymateb i'r ymgynghoriad wedi'u datrys yn y Bil fel y cafodd ei osod. Dyma'r materion hynny:
- 3.2 Cael gwared â Chynlluniau Mynediad a Chyfle, a oedd yn ein tyb ni yn cyflwyno llawer o fiwrocratiaeth ddiangen ac yn dyblygu'r hyn y gellid ei gyflawni drwy bwerau eraill sydd wedi'u sefydlu (er ein bod ar hyn o bryd yn ansicr a fydd cytundebau deilliannau yn berthnasol ar draws yr holl ddarparwyr ôl-16). Sylwn fod amod cyfle cyfartal wedi'i osod ar gyfer cofrestru, ochr yn ochr â datganiad ynghylch terfyn ffioedd. Rydym o blaid i'r Comisiwn allu penderfynu sut i weithredu'r amodau hyn, yn dilyn ymgynghoriad.
- 3.3 Eglurhad ynghylch y Weledigaeth ar gyfer rôl y Comisiwn yn y 9 dyletswydd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, credwn fod gormod o fanylion ynghylch yr hyn y dylai'r Comisiwn ei ystyried wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny.
- 3.4 Cael gwared â'r pŵer a gynigiwyd i'r Gweinidog benodi aelod y pwyllgor ymchwil. Sylwn, fodd bynnag, y bydd y Gweinidog yn penodi Cadeirydd y Pwyllgor a fydd hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Gallai hyn effeithio ar gydbwysedd y sgiliau ac arbenigedd arweinydd Bwrdd y Comisiwn.
- 3.5 Bellach y Comisiwn, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, a gaiff ddynodi'r corff ansawdd. Fodd bynnag, mae agweddau cymhleth a manwl rôl Estyn yn parhau o hyd. Tybir hefyd fod yn rhaid dynodi corff ansawdd, sy'n cynnig llai o hyblygrwydd ar gyfer ymaddasu i gyd-fynd â'r modd y dylai'r trefniadau weithio yn y dyfodol.
- 3.6 Gwnaed rhai newidiadau i ymdrin â'r anghysondeb rhwng yr angen i sicrhau cyfleusterau "priodol" i ddysgwyr 16-19 oed a chyfleusterau "rhesymol" i ddysgwyr 19 oed mewn Addysg Bellach. Fodd bynnag, bydd angen inni aros am reoliadau er mwyn deall beth yw maint y newidiadau a'r goblygiadau, gan gynnwys y graddau y gallai'r darpariaethau hyn wyro swm sylweddol o gyllid o AU i AB.

---

<sup>1</sup> [HEFCW-response-to-the-Draft-Tertiary-Education-and-Research-Wales-Bill-consultation.pdf](#)

<sup>2</sup> [HEFCW-response-to-the-Draft-Tertiary-Education-and-Research-Wales-Bill-consultation-covering-letter.pdf](#)

#### 4. Materion sy'n weddill

- 4.1 Nodir isod rai enghreifftiau dangosol o'r egwyddorion cyffredinol nad yw'r Bil wedi ymdrin â nhw yn ein barn ni. Rydym wedi codi'r materion hyn mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol ac yn uniongyrchol â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Ein barn ni yw y byddai peidio ymdrin â'r materion yn atal corff cyfun rhag ymdrin â'r problemau sy'n bodoli yn y system gyfredol ac, yn bwysicach, rhag gwella addysg drydyddol yng Nghymru. Dywedwn hyn ar sail yr uchod, ein bod o blaid y diwygiadau hyn mewn egwyddor, er y bydd hynny'n arwain at ddiddymu CCAUC.
- 4.2 Yn y memorandwm esboniadol (gweler paragraff 7.26), ceir myfyrdod cryf ar yr asesiad o'r system gyfredol, sef y cyfyngir ar allu Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo CCAUC, fel corff hyd braich, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'u blaenoriaethau. Mae hyn yn annog canfyddiad sylfaenol, ond anghywir, bod tensiwn rhwng rheolaeth ddigonol ar bolisi gan y Llywodraeth a'r trefniant hyd braich. Nid yw'n cydnabod bod CCAUC yn cyflawni ei dasgau yn y llythyr cylch gwaith yn rheolaidd, ac nad yw Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu ynghylch methiant i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion Cymru. Nid yw'n adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyllido CCAUC ac yn penodi ei aelodau, na'r ffaith ein bod wedi'n rhwymo'n gyfreithiol i gyflawni dyletswyddau cyrff cyhoeddus o ran cydraddoldeb, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn y cyddestun hwn, rydym yn parhau i fod o'r farn fod y system bresennol yn rhoi sicrwydd y gellir cyflawni blaenoriaethau Gweinidogion Cymru heb orfod tansellio natur hyd braich y Comisiwn. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo sefydlu corff hyd braich ond rydym o'r farn bod y tensiwn canfyddedig y cyfeirir ato uchod yn parhau i fod heb ei ddatrys drwy'r Bil, ac mai canlyniad hynny fydd cynnwys nifer o gymalau sy'n tansellio'r egwyddor hyd braich.
- 4.3 Mae'r enghreifftiau canlynol yn y Bil yn dangos sut y gellid diystyru'r Comisiwn er gwaethaf y gwiriadau cadarn a gynhelir ar weithgareddau'r Comisiwn, fel cael ei archwilio gan Archwilio Cymru, bod yn rhwymedig i ddeddfwriaeth arall fel corff cyhoeddus ac yn destun adolygiad barnwrol posibl:
- Nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â chyflawniad ei swyddogaethau, neu a gesglir wrth gyflawni ei swyddogaethau (adran 118), a phennu pa wybodaeth a roddir. Gallai hyn achosi i ddarparwyr cofrestredig neu bartneriaid allweddol beidio rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn, yn enwedig lle bo'r wybodaeth honno'n sensitif am resymau masnachol.
  - Nodi'n glir y caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo Cynllun Strategol y Comisiwn gydag addasiadau (hy, cael gyflwyno newidiadau unochrog i gynllun a gaiff ei greu gan y Comisiwn yn dilyn proses ymgynghori).
  - Rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn y mae'n rhaid iddo ei ystyried. Gallai hyn fod yn "gyfeiriad at faes ymchwil neu arloesi, ond dim ond os yw'r maes wedi'i nodi yng nghynllun strategol y Comisiwn" (cynllun y gallai Llywodraeth Cymru ei gymeradwyo ar ôl addasu'r meysydd ymchwil ac arloesi ynddo).

- Gweinidogion Cymru'n dweud wrth y Comisiwn yr hyn a allai fod wedi'i gynnwys yn y telerau ac amodau cyllid, gan gynnwys 'meysydd' ymchwil sydd yng nghynllun strategol y Comisiwn (y gallai Gweinidogion fod wedi'u diwygio i gynnwys y 'meysydd' hynny).
- Rhoi cymorth ariannol i ddarparwydd ar gyfer cyrsiau Addysg Bellach a rhai cyrsiau Addysg Uwch.
- Rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud wrth gyflawni'r naw dyletswydd strategol.
- Gallu ymyrryd yn uniongyrchol mewn Sefydliad Addysg Bellach, gyda'r grym i ddiwygio ei aelodaeth o gorff llywodraethu.
- Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi'r Llywodraeth i gyllido ymchwil o amgylch y Comisiwn drwy ddal pwerau yn ôl o dan y Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 a Deddf Addysg Bellach 2004. Mae'r rhesymeg ar gyfer hyn yn aneglur, os mai nod y Comisiwn yw bod yn gorff strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

4.4 Mae'r Bil yn cadarnhau rhan helaeth o'r system gyfredol mewn deddfwriaeth newydd. Ac ystyried bod Adolygiad Hazelkorn wedi'i gyhoeddi yn 2016, nid yw'n glir pam mai'r system gyfredol, i bob pwrpas, yw'r sail ar gyfer y Bil, er bod y system honno wedi'i haddasu rywfaint. Mae'r tensiynau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn dal heb eu datrys, a byddant yn atal y comisiwn rhag cyflawni'r nodau'n gysylltiedig â chreu sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol unedig. Yn wir, ar ôl sefydlu hyn yn y ddeddfwriaeth, ni fydd y Comisiwn yn gallu gweithredu y tu allan i'r ddeddfwriaeth honno nac yn gallu ymaddasu i drefniadau newydd, sy'n cyd-fynd yn well ag ymagwedd unedig at gyllido a rheoleiddio'r system, gan weithredu'n gyfreithlon ar yr un pryd. Esbonnir hyn yn yr enghreifftiau canlynol:

- Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu, monitro a hyrwyddo gwelliant i ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws darparwydd sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn ac a gyllidir ganddo. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i Estyn ei arolygu, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn gyllido Estyn i gyflawni hynny. I bob pwrpas, mae'r Bil yn ailadrodd dyletswyddau Estyn sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth eisoes.
- Nid yw'r Bil yn mynd i'r afael â goruchwyliaeth dros rai meysydd darpariaeth a allai achosi risg i ansawdd, fel Addysg Drawswladol a gyflenwir o dan drefniadau dilysu gan ddarparwydd sydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn sydd hefyd yn gorff dyfarnu.

4.5 Nid oes unrhyw sail resymegol glir yn y memorandwm esboniadol ar gyfer y penderfyniad i ddatblygu'r Bil fel y cafodd ei gyflwyno. Yn benodol, prin yw'r asesiad o'r costau, ac ychydig o ystyriaeth a roddir i'r amser y bydd ei angen er mwyn datblygu'r system. Cymerodd hi dair blynedd i CCAUC sefydlu'r prosesau a'r systemau i weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn llawn, ac roedd hynny heb gyflwyno unrhyw newidiadau o bwys i CCAUC ei hun. Ceir amheuaeth o hyd ynghylch sail resymegol dros gyflwyno mân newidiadau i'r trefniadau rheoleiddio a chyllido cyfredol, a'r cyfiawnhad dros y gost o wneud hynny.

- 4.6 Nid yw'r memorandwm esboniadol yn cynnig sail resymegol ar gyfer adran ymchwil y Bil, gan gynnwys esboniad, yn enwedig, ynghylch pam y bydd y Llywodraeth yn parhau i allu cyllido ymchwil yn annibynnol ar y Comisiwn. Os bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllid strategol dylai'r Senedd a'i bwyllgorau gael sicrwydd mai'r Comisiwn yn unig fydd yn darparu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil addysg uwch. Os oes amgylchiadau lle dylai cyllid gael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Weinidogion, dylem ddisgwyl i'r Comisiwn gymryd rhan yn y penderfyniadau cyllido hynny a wneir gan Weinidogion.
- 4.7 Mae'r Bil yn cyflwyno cytundebau Canlyniad, ond ni roddir unrhyw dystiolaeth ynghylch sut y bydd cytundebau Canlyniad yn esgor ar y newidiadau buddiol a geisir.
- 4.8 At ei gilydd, ystyriwn fod y ddeddfwriaeth yn rhy ragnodol a manwl, a bod yr adrannau sy'n trafod Estyn a Phrentisiaethau yn enghreifftiau o hyn. Mae'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn enghraifft o ddeddfwriaeth gryno sydd wedi galluogi CCAUC i gyllido, rheoleiddio (hyd at 2015) a dylanwadu'n effeithiol. Y mae hefyd wedi galluogi'r Cyngor i ymateb yn gyflym ac mewn modd hyblyg i heriau a sefyllfaoedd sy'n newid fel bo'r angen. Po fanylaf y ddeddfwriaeth, y mwyaf tebygol yw hi y ceir cymhlethodau wrth ei gweithredu sy'n anodd eu datrys, a'r lleiaf tebygol yw hi y bydd y ddeddfwriaeth yn sefyll prawf amser.

## 5 Casgliad

- 5.1 Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad drafft ar y Bil yn 2020, casglwyd:

'... bod cyfle wedi'i gollu yn narpariaethau cyfredol y Bil drafft i sefydlu cyfundrefn reoleiddio a chyllido gyson ar gyfer y sector addysg drydyddol. Mae'n cadarnhau'r trefniadau sy'n bodoli eisoes, gan ei gwneud hi'n amhosib gwireddu'r manteision allweddol a ragwelwyd yn sgil gwell cydlyniant a chysondeb. Yn hyn o beth, nid yw'r Bil drafft, na'r symiau mawr o gostau trosiannol cysylltiedig, yn cynnig rhyw lawer y tu hwnt i'r trefniadau cyfredol. Nid yw'n ddigonol sefydlu corff newydd yn unig: mae angen i'r ddeddfwriaeth alluogi'r corff hwnnw i ymdrin â'r heriau diwylliannol heb y rhwystr o gadw trefniadau rheoleiddio, cyllido ac ansawdd arwahanol cyfredol, a'r holl agweddau cymhleth yn gysylltiedig â'r rheiny.'

Rydym yn croesawu'r addasiadau sydd wedi'u cyflwyno i'r Bil, fel y dangoswyd yn adran 3 uchod. Er hynny, yn dilyn ein darlleniad cyntaf, awgrymir y byddai angen diwygio drafft y ddeddfwriaeth ymhellach er mwyn sicrhau'r manteision posibl a geir yn sgil y cyfle hwn, ac i gyfiawnhau'r buddsoddiad sylweddol er mwyn trosglwyddo a'r costau gweithredu parhaus. Byddwn yn falch o ymgysylltu mewn modd adeiladol wrth i'r Bil basio drwy brosesau amrywiol y Senedd, gyda golwg ar gefnogi gwaith mireinio pellach cyn llunio'r fersiwn derfynol.